

RYDYM YN RECRIWTIO

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Hyfforddwr Nofio

Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £11.25 - £12.42 yr awr

Oriau : Mae amrywiaeth o oriau a mathau o gontractau ar gael, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr sydd heb y cymwysterau Lleoliad: Oriau ar gael ym mhob safle, o Ganolfan Hamdden Huw Jones i'r Nova

Am y Swydd

Mae ein Dosbarthiadau Nofio yn rhedeg o tua 3pm tan tua 7pm, bron bob dydd o'r wythnos, yn dibynnu ar y safle. Gallwn fod yn hyblyg o fewn yr oriau hyn, felly gallwch chi benderfynu pa ddiwrnodau a dosbarthiadau sydd fwyaf addas i chi. Rydym yn bwriadu llenwi rolau cytundebol a rolau achlysurol.

Fel Hyfforddwr Nofio, byddwch yn helpu ein haelodau ifanc i gyflawni eu nodau ffitrwydd - a chael profiad gwych yn gwneud hynny! Byddwch yn creu dosbarthiadau hwyliog a diddorol, gan helpu pawb i symud ymlaen trwy'r lefelau dosbarth i ddod yn nofwyr cryf a hyderus.

Byddwch yn gallu addasu eich sesiynau i wneud i bawb deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, p'un a ydynt yn ymuno am y tro cyntaf, neu'n rheolaidd i'ch dosbarthiadau.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.



Hyfforddwr Nofio

Amdanoch Chi

Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol a sylw gwych i fanylion.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly mae arnom angen rhywun sy'n gallu tawelu pobl, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych bob amser. Mae'n bwysig iawn bod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus wrth gymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai fod yn risg i eraill, mewn modd cyfeillgar ond cadarn.

Yn ddelfrydol bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio gyda chwsmeriaid, ynghyd â'ch STA Lefelau 1 a 2. Fodd bynnag, rydym yn hapus i'ch cefnogi i gyflawni'r cymwysterau hyn os nad oes gennych rai eisoes, felly mae angen i chi fod yn hyderus yn y dŵr. Rydym wrth ein bodd yn tyfu ein staff, felly mae awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Mae gennym ni gyrsiau STA wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Mai, i'w cynnal yn Hamdden Rhuthun, felly os nad ydych chi wedi cymhwyso eto, ond yw'r math o berson rydyn ni'n chwilio amdano, byddwn ni'n eich cofrestru ar y cwrs hwn i'ch cymhwyso!

Os ydych chi'n berson cyfeillgar, brwdfrydig, gydag awydd gwirioneddol i helpu eraill, ac yn dymuno gweithio mewn Cwmni cyflym a hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn ffit perffaith i chi.



Hyfforddwr Nofio

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd sy'n arwain y sector. Mae 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm ledled Sir Ddinbych yn cymharu â'r gorau yn y sector preifat, ac maent yn esiampl arbennig i weithredwyr hamdden ledled y DU.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn un tîm, pob un yn gweithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin ond yn gwerthfawrogi unigolrwydd pob unigolyn. Rydyn ni'n ymddiried, yn gofalu ac yn parchu ein gilydd, oherwydd rydyn ni'n credu bod hynny'n ein gwneud ni'n gryfach. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.



Hyfforddwr Nofio

Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Denbighshire Leisure Ltd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Dyddiad Cau: 29 Mawrth 2022

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i People@denbighshireleisure.co.uk